Ombwdsmon y Gyfraith

Yma i helpu

Beth i'w wneud os oes gennych gŵyn

Gall Ombwdsmon y Gyfraith eich helpu i ddatrys eich cwyn ynglŷn â gwasanaethau cyfreithiol

- A ydych yn anhapus gyda'r gwasanaeth mae'ch cyfreithiwr neu gwmni cyfreithiol wedi ei ddarparu?

- A ydych o'r farn bod eich cyfreithiwr wedi methu gwneud yr hyn y cytunont i'w wneud, wedi bod yn araf yn ymateb i'ch galwadau, neu wedi cynyddu eu taliadau heb esbonio hyn yn gywir i chi?

- A ydych wedi dweud hyn wrthynt ac yn dal heb dderbyn ateb boddhaol?

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn ag Ombwdsmon y Gyfraith a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Mae'n delio â'r mathau o gwynion y gallwn ddelio â nhw a'r bobl a sefydliadau y gallwn eu helpu. Mae yna hefyd ganllaw cam wrth gam y tu fewn i'ch helpu i ddeall sut mae'r gwasanaeth yn gweithio.

Rydym yn sefydliad annibynnol gyda grymoedd swyddogol i ddatrys cwynion ynglŷn â gwasanaethau cyfreithiol. Rydym yn gwbl amhleidiol ac nid ydym yn ochri â neb. Pan fyddwn yn derbyn cwyn, fe edrychwn ar y ffeithiau i gyd er mwyn gallu dod i benderfyniad sy'n deg i bawb. Os byddwn yn penderfynu nad oedd y gwasanaeth a dderbynioch yn foddhaol, gallwn sicrhau bod eich cyfreithiwr neu gwmni cyfreithiol yn unioni'r mater.

Mae ein gwasanaeth am ddim i ddefnyddwyr.

LEGAL OMBUDSMAN

Pa faterion allwn ni helpu eu datrys?

Gallwn gymryd rhan mewn nifer o wahanol fathau o gwynion am wasanaeth cyfreithiol, megis y modd mae cyfreithiwr wedi delio ag ewyllys neu fater teuluol. Gallwn hefyd helpu os ydych wedi derbyn gwasanaeth gwael neu wedi prynu neu werthu tŷ neu wneud hawliad anaf personol.

Gallwn ymchwilio i gwynion ynglŷn â phob math o gyfreithwyr: twrneiod, bargyfreithwyr, trawsgludwyr trwyddedig, twrneiod cost, gweithredwyr cyfreithiol, notarïaid, cyfreithwyr patent, cyfreithwyr nod masnach, cwmnïau cyfreithiol a chwmnïau yn darparu gwasanaethau cyfreithiol.

I weld a allwn helpu, cysylltwch. Fe welwch ein manylion cyswllt ar gefn y daflen hon.

Pwy all ddefnyddio'n gwasanaeth?

Mae ein gwasanaeth yn agored i bob aelod o'r cyhoedd ac i fusnesau bach iawn, elusennau, clybiau ac ymddiriedolaethau.

Mae'n well gennym os ydych yn dod atom yn uniongyrchol, ond gallwch ofyn i ffrind, aelod o'r teulu neu rywun arall i gysylltu ar eich rhan. Os byddwch yn penderfynu talu rhywun i'ch cynrychioli, megis cwmni rheoli hawliadau, bydd yn rhaid i chi dalu eu costau.
I wirio a allwn eich helpu, ffoniwch ni.

Beth os na allwn helpu?

Os na allwn ni helpu, gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau eraill all ymchwilio pethau fel camymddwyn proffesiynol. Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr a Bwrdd Safonau'r Bar, er enghraifft, yn gallu delio â materion sydd tu hwnt i'n grymoedd.

LEGAL OMBUDSMAN

Dyma’r camau fydd angen i chi eu cymryd

Cam 1: Dywedwch wrth eich cyfreithiwr

Mae gennych hawl i ddisgwyl y safon uchaf o wasanaeth a thegwch gan eich cyfreithiwr. Ond weithiau bydd pethau’n mynd o chwith.

Os nad ydych yn hapus gyda’r gwasanaeth a dderbynioch, dywedwch wrth eich cyfreithiwr er mwyn iddynt gael cyfle i unioni pethau. Dylai pob cyfreithiwr esbonio sut mae eu gweithdrefn delio â chwynion eu hunain yn gweithio. Felly gofynnwch iddynt amdano'n gyntaf.

Rhaid i chi roi cyfle i’ch cyfreithiwr ddatrys eich cwyn cyn y gall Ombwdsmon y Gyfraith ymyrryd. Cyflwynwch eich cwyn iddynt cyn gynted â’ch bod yn ymwybodol bod yna broblem – peidiwch ag oedi’n rhy hir.

Os ydych yn cael anhawster cysylltu â’ch cyfreithiwr ac nad ydych yn siŵr beth i’w wneud nesaf, cysylltwch â ni.

Cam 2: Rhowch amser i’ch cyfreithiwr ddatrys pethau

Dylech ganiatáu hyd at wyth wythnos i’ch cyfreithiwr ddatrys eich cwyn. Os ydynt wedi methu delio â’r cwyn i lefel foddhaol yn y cyfnod hwn o amser, gallwch alw ar Ombwdsmon y Gyfraith.

Cam 3: Dod â’ch cwyn at Ombwdsmon y Gyfraith

Dewch atom ni cyn gynted â phosibl wedi ceisio datrys pethau gyda'ch cyfreithiwr eich hun. Os nad ydych yn hapus â’u hymateb terfynol, mae gennych hyd at chwe mis i ddod â’ch cwyn i ni. Dylid dod â’ch cwyn atom yn ddim hwyrach na 12 mis wedi i’r broblem ddigwydd gyntaf, neu pan fyddech wedi dod yn ymwybodol o’r broblem o fewn rheswm.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, byddwn angen i chi a’ch cyfreithiwr ddarparu gwybodaeth ynglŷn â’r camau a gymerwyd i ddatrys y cwyn cyn iddo ein cyrraedd. Cadwch gopïau o unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig yn ogystal ag unrhyw nodiadau sydd gennych ar beth a ddigwyddodd a phryd.

LEGAL OMBUDSMAN

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, bydd o gymorth os bydd gennych:

- enw a chyfeiriad y cyfreithiwr neu gwmni cyfreithiol dan sylw
- y dyddiad pan roddoch wybod iddynt gyntaf am eich cwyn
- y dyddiad pan ddaethoch yn ymwybodol o'r broblem yr ydych yn cwyno iddynt amdani
- manylion yr ymateb a dderbynioch ganddynt.

Sut allwn ni weithredu

Os byddwn yn cytuno i chi dderbyn gwasanaeth anfoddhaol gan eich cyfreithiwr, gallwn ofyn iddynt:

- ymddiheuro i chi
- ddychwelyd unrhyw ddogfennau y byddwch eu hangen
- wneud mwy o waith i chi os gallai hyn unioni beth aeth o'i le
- ad-dalu neu leihau eich ffioedd cyfreithiol, neu
- dalu iawndal os oeddech ar eich colled neu wedi'ch trin yn ddrwg (gall hyn fod unrhyw beth hyd at £30,000).

Gellir datrys y rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniwn yn anffurfiol trwy gael pawb i gytuno ar beth sy'n deg. Gallwn hefyd gyflawni ymchwiliadau ffurfiol os oes angen. Ond gall y rhain gymryd mwy o amser i'w cwblhau.

Wedi ei dderbyn, mae penderfyniad Ombwdsmon yn derfynol.

Sut i gysylltu â ni

Ffoniwch
Gallwch ein ffonio ar **0300 555 0333**
(Mae galwadau i Ombwdsmon y Gyfraith yn costio'r un faint a rhif llinell daear arferol 01 neu 02, hyd yn oed o ffôn symudol, ac maent wedi eu recordio i ddibenion hyfforddiant a monitro).

Rydym ar agor Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 8.30am a 5.30pm.

Os ydych yn ffonio o dramor, ffoniwch **+44 121 245 3050.**

Ar gyfer ein minicom, ffoniwch 0300 555 1777.

E-bost
Gallwch hefyd anfon e-bost atom yn
enquiries@legalombudsman.org.uk

Os ydych eisiau gwybod mwy amdanom a'r hyn yr ydym yn ei wneud, ewch i
www.legalombudsman.org.uk

Ysgrifennu
Pe byddai'n well gennych, gallwch ysgrifennu atom yn
Ombwdsmon y Gyfraith
PO Box 15870
Tamworth
B77 9LE

Os hoffech gael yr wybodaeth mewn iaith arall neu mewn print bras, Braille neu ar CD sain, cysylltwch.

LEGAL OMBUDSMAN